

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i</b>	<b>CYFARFOD Y BWRDD COMISIYNWYR</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>16 IONAWR 2012</b>
<b>Pwnc</b>	<b>DRAFFT CYCHWYNNOL O'R GYLLIDEB REFENIW AR GYFER 2012-13</b>
<b>Deilydd(ion) Portffolio</b>	<b>BYRON DAVIES (COMISIYNYDD) CYNGHORYDD H E JONES (DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID)</b>
<b>Swyddog(ion) Arweiniol</b>	<b>GILL LEWIS SWYDDOG CYLLID 151 DROS DRO</b>
<b>Swyddog Cyswllt</b>	<b>GILL LEWIS /EINIR THOMAS</b>
<b>Natur a rheswm am adrodd:</b>	
I alluogi'r Comisiynwyr i gwblhau eu cynigion cychwynnol o'r gyllideb.	

<b>A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw</b>
Pwrpas yr adroddid yw i gyflwyno cyllideb ddi-gynnydd ddrafft ar gyfer 2012-13, gydag opsiynau arbedion a twf. Mae hyn yn rhan o'r broses cyllideb a gyflwynwyd oddi fewn Datganiad y Comisiynwyr ar y gyllideb a'r Strategaeth.
<b>B - Ystyriaethau</b>
Gweler ynghlwm

<b>C - Goblygiadau ac Effeithiau</b>		
<b>1</b>	<b>Cyllid / Adran 151</b>	Awdur yr adroddiad
<b>2</b>	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro</b>	
<b>3</b>	<b>Adnoddau Dynol</b>	
<b>4</b>	<b>Gwasanaethau Eiddo</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>5</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	
<b>6</b>	<b>Cydraddoldeb</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>7</b>	<b>Gwrthdodi a Chymdeithasol</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>8</b>	<b>Cyfathrebu</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>9</b>	<b>Ymgynghori</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>10</b>	<b>Economaidd</b>	
<b>11</b>	<b>Amgylcheddol</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>12</b>	<b>Trosedd ac Anrhefn</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
<b>13</b>	<b>Cytundeb Canlyniadau</b>	
<b>CH – Crynodeb</b>		
<b>D - Argymhelliad</b>		
Gweler rhan 7.3 o'r adroddiad		

**Enw awdur yr adroddiad: Gill Lewis, Swyddog Cyllid 151**

**Dyddiad: 10 Ionawr 2012**

<b>Atodiadau:</b>
A – Crynodeb cyllideb ddi-gynnydd ddrafft a twf ac arbedion
B – Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy
C – Crynodeb gan Gyfadran
D – Cyllideb 2012-13 – Arbedion Newydd Adnabyddwyd
E – Pwysau unwaith-ac-am-byth
F – Addasiadau o Dargedau Incwm
G – Pwysau ailadroddus

<b>Papurau Cefndirol:</b>

## 1. CEFNDIR

### 1.1 Penderfyniadau Blaenorol

1.1.1 Gofynnodd adroddiad y Comisiynwyr ym mis Gorffennaf i'r Cyfadranau ddatblygu cynigion i ddod o hyd i arbedion 5% er mwyn paratoi ar gyfer y broses o osod cyllideb ar gyfer 2012-13 a chan ragdybio y byddai Cyllid Trysorlys Cyfun 2012-13 yn gostwng yn sylweddol.

1.1.2 Yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 8 Rhagfyr 2011, sefydlwyd yr egwyddorion isod ar gyfer y gyllideb ddigynnydd:-

- Mabwysiadu bwriad y bydd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor;
- Rhagdybio dim cynnydd mewn cyflogau;
- Cynnydd o 0.5% yn y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (o 21.5% i 22%);
- Cynnydd gwirioneddol ar gyfer chwyddiant lle mae'n rhaid gwneud hynny yn unol â'r gyfraith neu trwy gontract; ar gyfer trethi annomestig ac ati;
- Chwyddiant cyfredol ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau eraill.

1.1.3 Yn y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2011, rhoddodd y Comisiynwyr sylw i'r cronfeydd wrth gefn a phenderfynwyd ystyried defnyddio rhan o'r rhain fel cynnig drafft wrth ddatblygu cyllideb ar gyfer 2012/13.

### 1.2 Y setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol

1.2.1 Ar 6 Rhagfyr, cyhoeddodd y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau fanylion y setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol. Disgwylir y bydd yr adroddiad ar gyllid Llywodraeth Leol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gynulliad Llywodraeth Cymru ar 10 Ionawr 2012. Nid oedd y setliad terfynol yn cynnwys unrhyw beth annisgwyl na newidiadau sylfaenol o gymharu â'r setliad amodol.

1.2.2 Mae'r setliad terfynol yn cadarnhau nifer o drosglwyddiadau i mewn ac allan o gyllid craidd llywodraeth leol. Trosglwyddiadau yw newidiadau yn y ffordd y mae cyllid yn llifo ac, yn gyffredinol, maent yn cael effaith niwtral ar wasanaethau. Dangosir y rhain isod ond ychydig iawn o effaith a gânt ar y cyllid cyffredinol.

#### **Trosglwyddiadau Allan:**

- Mapio Gwasanaethau - £39k.

#### **Trosglwyddiadau i Mewn:**

- Deddf Iechyd Meddwl a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid - £16k.
- Rheoliadau Gwelyau Haul £1k.

1.2.3 Mae'r setliad terfynol yn cadarnhau na fydd llawr ar gyfer blwyddyn 2012-13 (yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf). Amcangyfrifir bod y llawr yn werth £0.38m yn 2011-12 a £0.58m yn 2010-11 i Ynys Môn. Byddai llawr yn 2012-13 ar lefel awgrymwyd gan Sefydliad Llywodraeth Leol Cymru wedi rhoi £0.51m i Ynys Môn.

Mae newidiadau yn y setliad yn cael eu hachosi gan ddadansoddi'r ystadegau oddi fewn y fformiwla a lleihad ym mhrydau ysgol am ddim. Mae diweddarau'r ffigyrau oddi fewn y fformiwla hefyd yn cynnwys manylion ynghylch niferoedd pobl ac ystadegau eraill sy'n mesur y galw am wasanaethau'r Awdurdod. Yn y pen draw, ar gyfer yr ystadegau hyn, cyfran yr Awdurdod o gyfanswm Cymru sy'n penderfynu a yw wedi gwneud yn well neu'n waeth na gweddill Cymru.

- 1.2.4 O ganlyniad i'r diffyg llawr, ar gyfer 2012-13 mae gan Ynys Môn yr ail uchaf o ostyngiad canran yng nghyllideb y CTC.

### 1.3 Datganiad yr Hydref gan y Canghellor

- 1.3.1 Cyflwynodd y Canghellor Ddatganiad yr Hydref ar 29 Tachwedd 2011. Roedd yn cynnwys y ffigyrau diweddaraf ynghylch cyllid cyhoeddus a'r economi.
- 1.3.2 Er nad oedd disgwyl y byddai'n cael effaith sylweddol ar y cyhoeddiadau ar y cyllid terfynol ar gyfer 2012-13, roedd yn rhoi arwydd o'r cyfeiriad teithio.
- 1.3.3 Yn gyffredinol, roedd y Datganiad yn besimistaidd, gyda'r cywair yn fwy negyddol na'r cywair yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth. Y pwyntiau allweddol oedd:
- Twf is;
  - Cymhareb uwch o ran Benthycu/Dyledion;
  - Llymder am ddwy flynedd ychwanegol tan 2016-17 (nid oes unrhyw benderfyniadau na chynlluniau wedi eu datblygu i gyflawni hyn).

Mae'r holl bwyntiau hyn yn golygu mwy o bwysau cyllidol ar Lywodraeth Cymru a fydd, yn ei dro, yn arwain at ostyngiad gwirioneddol yn y lefelau cyllido dros y tymor canol.

## 2. CYLLIDEB REFENIW 2012-13

### 2.1 Cyllideb Ddigynnydd

- 2.1.1 Mae Atodiad A yn cyflwyno'r drafft cychwynnol o'r gyllideb refeniw ddigynnydd ar gyfer 2012-13. Mae'n cymryd cyllideb derfynol 2011-12 fel y man cychwyn ac yn adlewyrchu symudiadau yn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn, trosglwyddiadau grant, symudiadau staff, chwyddiant a newidiadau yr ymrwymwyd iddynt.

- 2.1.2 Mae'r gyllideb ddigynnydd wedi cymryd y ffactorau a ddisgrifwyd yn 1.1.2 i ystyriaeth yn unol â Datganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth:

Mae chwyddiant wedi bod yn rhedeg yn llawer uwch na'r targed o 2% ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar hyn o bryd, mae'n 4.8% (yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr mis Tachwedd), ac roedd ar ei anterth ym mis Medi 2011, sef 5.2%. Mae'r rhan fwyaf o'r economegwyr a Banc Lloegr yn disgwyl i'r gyfradd hon ddisgyn yn sydyn yn 2012-13 hyd at y targed 2% neu hyd yn oed yn is na hynny i 1%. Gyda hynny mewn cof, bydd y Cyngor yn cydgysylltu gyda'r ymgynghorwyr trysorlys i gael barn sy'n fwy lleol ynghylch y disgwyliadau ar gyfer chwyddiant dros y flwyddyn ariannol nesaf. Dylid nodi hefyd bod rhai ffactorau fel ynni wedi bod yn gyson uwch na chwyddiant cyffredinol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gwnaed lwfans o 10% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant i adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, bydd angen monitro hyn yn ofalus oherwydd ei natur anwadal a chyfnewidiol.

- 2.1.3 Mae'r gyllideb ddigynnydd hefyd wedi gwneud lwfans ar gyfer:

**Gwasanaeth Tân:** Cafwyd gwybod y bydd gostyngiad o £17k yn yr ardoll.

**Trethi Cenedlaethol Annomestig:** Mae'r gyfradd yn y bunt ar gyfer trethi busnes wedi codi o £0.428 i £0.452 (cynnydd o 5.6%) sydd wedi arwain at gynydd net i'r Cyngor o £81k.

**Disgyblion Ysgol:** Er gweld cynnydd net yn nifer y disgyblion, mae'r cynnydd hwn wedi digwydd yn yr Ysgolion Cynradd. Mae'r niferoedd yn yr Ysgolion Uwchradd wedi bod yn disgyn. Oherwydd bod cyllid ar gyfer pob disgybl ysgol uwchradd (£3,430 yn CA4) yn uwch nag ar gyfer disgyblion ysgol gynradd (£2,326), mae hyn wedi arwain at ostyngiad net o £30k yn y cwantwm ysgolion.

**Tunelli Gwastraff:** Gostyngiad net o £314k yn y gyllideb ar gyfer cael gwared ar wastraff sy'n adlewyrchu ail-drafod y contract a arweiniodd at gostau yn disgyn o £42.55 fesul tunnell i £21.50 fesul tunnell.

**Cynhyrchu Nwy ym Mhenhesgyn:** Gostyngiad yng nghyllideb incwm o £136k oherwydd nad yw'r prosiect cynhyrchu trydan yn cynhyrchu cymaint o warged ag a ragamcanwyd ym mhrosiect 2009-10 - er ei fod yn parhau i fod yn brosiect ymarferol.

**Costau Treth Tirlenwi:** Cynnydd o £111k i adlewyrchu cynnydd o £8 fesul tunnell yn seiliedig ar ragamcan o 19,000 o dunelli.

**Lwfansau Aelodau:** Mae angen cynnydd o £30k dros y gyllideb diwygiedig ar gyfer y flwyddyn gyfredol i adlewyrchu'r adroddiad terfynol o'r panel cydnabyddiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Diddymir y disgresiwn lleol ar lefelau lwfansau o 1 Ebrill ymlaen. Bydd angen cynnydd pellach o hyd at £150k pan fydd y cyflogau uwch (ynghynt y lwfansau cyfrifoldebau arbennig) yn dod yn daladwy.

- 2.1.4** Gwnaed darpariaeth ar gyfer gostyngiadau demograffig yn y gyllideb addysg, a chynyddiadau yng Ngwasanaethau Cymdeithasol a Phrifyrdd.

## **2.2 Risgiau ac Arian Wrth Gefn**

- 2.2.1** Yn aml, mae'r ansicrwydd ynghylch cyllidebau arfaethedig oherwydd bod contract mawr allan i dendr. Mae hynny oherwydd na wyddys beth fydd y gwerth terfynol hyd nes y bydd yr ymarfer tendro wedi ei gwblhau. Mae yna nifer o gontractau gwastraff a fydd yn cael eu hail-dendro yn 2012-13 sydd wedi eu cynnwys yn y sefyllfa ddigynnydd.
- 2.2.2** Mae'r gyllideb wrth gefn flynyddol ar gyfer y broses Arfarnu Swyddi a Chostau Cyflogaeth bellach yn £900k, h.y. 2% o'r bil cyflogaeth perthnasol. Dyma oedd y gyfradd ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiweddaraf. Mae hyn yn adlewyrchu penderfyniad yn 2010-11 i symud ymlaen gydag adolygiad o weithwyr tâl is, yn bennaf ar gyflog a thelir ar bwynt sefydlog. Bydd angen parhau i adolygu'r swm wrth i'r broses Arfarnu Swyddi gael ei datblygu ac unwaith y cytunir ar fethodoleg.
- 2.2.3** Mae'r arain wrth gefn 'proses' yn cynnwys £300k ychwanegol sydd i'w glustnodi ar gyfer prosiectau penodol. Ni chaniatawyd ar gyfer unrhyw arian wrth gefn contractau sylweddol yn 2012-13, ond bydd angen arian wrth gefn cyffredinol i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn.
- 2.2.4** Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys arian wrth gefn ar gyfer gwariant unwaith-ac-am-byth i gefnogi perfformiad a gweithrediad gweithgareddau. Mae cyllidebau meysydd adrannau yn tybio Grant Cytundeb Canlyniad £319k, ac mae £283k eisioes wedi ei ymrwymo. Y prif ansicrwydd yw; r defnydd o arian wrth gefn i gyllido costau ymyrraeth ac hefyd y posibilrwydd bydd cyfran yn cael ei ddal yn ôl petai'r cytundebau canlyniad ddim yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae £600k yn weddill o'r flwyddyn flaenorol. Bydd yn bosib cyllido rhai bidiau prosiect unwaith –ac-am-byth o'r ffynhonnell yma.

**2.2.5** Mae'r gyllideb ddi-gynnydd yn tybio fod rhaglen toriadau y flwyddyn gyfredol dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn cael eu cyflawni, ar y cyfan, ond gyda nifer fechan o ddiwygiadau i adlewyrchu'r newidiadau wybyddus a llithriad. Mae Atodiad B yn cynnwys asesiad o'r cynnydd.

**2.2.6** Mae yna nifer o risgiau allweddol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn 2012-13 a all gael effaith ar gyllid wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Ni ellir mesur rhai o'r risgiau hyn ar hyn o bryd – maent yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Newidiadau mewn budd-daliadau o ganlyniad i ddiwygiadau gan y Llywodraeth i'r system fudd-dal. O 1 Ionawr 2012, daeth rheolau newydd ar gyfer budd-daliadau i rym. Mae'r rhain yn cynnwys capio faint o fudd-dal y gall unigolion ei hawlio;
- Dyfarniad Tâl – fel sydd wedi ei amlygu ym mharagraff 1.1.2, mae'r gyllideb ddigynnydd yn cymryd na fydd unrhyw ddyfarniad tâl yn 2012-13 ar gyfer gweithwyr;
- Arfarnu Swyddi - er bod cronfeydd wrth gefn wedi cronni dros nifer o flynyddoedd, ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd canlyniad yr ymarfer ac, o gofio profiadau amrywiol awdurdodau eraill yn y Deyrnas Gyfunol, mae'n anodd ei asesu;
- Grantiau Penodol - Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, ychydig iawn o wybodaeth fanwl sydd ar gael ynghylch dyraniadau grant ar gyfer 2012-13. Mae'r sefyllfa ddi-gynnydd ar hyn o bryd yn adlewyrchu rhai grantiau ar lefelau 2011-12. Bydd angen rheoli unrhyw ostyngiadau yn lefelau'r grantiau yn 2012-13 trwy wneud gostyngiadau cyfatebol mewn gwariant, un ai yn uniongyrchol gysylltiedig â'r grant neu trwy rannau eraill o'r gyllideb;
- Cost Ymyrraeth – Parheir ansicrwydd ynglyn â chostau'r dyfodol o'r ymyrraeth ac amseriad tynnu'n ôl y Comisiynwyr. Bydd angen ystyried hyn cyn gosod y gyllideb. Mae pwysau cyferbyniol wrth ailsefydlu'r lwfansau cyfrifoldebau arbennig;
- Ailstrwythuro cymeradwyedig yr Uwch Reolwyr - Bydd hyn angen cyllideb unwaith-ac-am-byth yn 2012-13, o bosib i gynnwys trefniadau dros dro. Mae'r costau posibl yn cael eu hasesu;
- Mae'r gweithgaredd cyfredol mewn perthynas â'r orsaf bwer niwcliar posib wedi cael ei gynnwys yng nghyllidebau blaenorol. Efallai bydd angen eu diwygio o dro i dro ac mae'r pwysau ar y cyllidebau'n cael eu harolygu.

### 2.3 Y Bwlch Cyllidebol

**2.3.1** Argymhellir bod y Comisiynwyr yn mabwysiadu'r gyllideb ddrafft ddi-gynnydd fel sail ar gyfer cyllideb refeniw 2012-13.

**2.3.2** O ystyried y ffigyrau ar gyfer y Setliad Terfynol a chan gymryd y bydd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor byddai cynnydd yn y sylfaen dreth o 0.3% yn rhoi cynnydd cyffredinol o 5.31% (fel y penderfynwyd gan Fwrdd y Comisiynwyr ym mis Tachwedd), yn y refeniw o'r dreth gyngor. Felly, y gofyniad o ran cyllideb fforddiadwy yw:-

	£000
Cyllid Trysorlys Cyfun	92,330
Treth Gyngor	<u>26,832</u>
	<u>119,163</u>

**2.3.3** Y gyllideb ddigynnydd h.y. y gyllideb cyn ystyried unrhyw dwf ychwanegol. Y bwlich yn y gyllideb gyda'r sefyllfa ddigynnydd gychwynnol ddrafft yw £3.31m.

	<b>£000</b>
CTC & chyllid Treth Gyngor	119,163
Bwlch yn y Gyllideb Ddi-gynnydd	<u>3,310</u>
	<u>122,472</u>

**2.3.4** Roedd Datganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth yn cynnwys rhagolwg lefel uchel a oedd yn dangos bwlich posib o £3.7m yn y cyllid ar gyfer 2012-13. Roedd hyn yn cynnwys rhagamcan twf o £1m. Pan ychwanegir hwn i'r ffigur bwlich yn y gyllideb di-gynnydd uchod, mae'r bwlich yn y gyllideb yn cynyddu i £4.3m, fel y dangosir yn y tabl isod. Mae'r tabl isod yn cymharu'r sefyllfa a gyflwynwyd yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth gyda'r sefyllfa ddigynnydd gychwynnol:

	<b>Rhagolwg Lefel Uchaf</b>	<b>Sefyllfa ddigynnydd ddrafft (plws lwfans twf £1m)</b>	<b>Symudiad</b>
	<b>£'m</b>	<b>£'m</b>	<b>£'m</b>
Cyllideb Blwyddyn Flaenorol	118.90	118.92	0.02
Cynnydd mewn Costau	2.10	3.35	1.25
Newidiadau Demograffig (Disgyblion)	0.20	-0.27	0.07
Ariannu Cyfalaf a Llog	-0.10	-0.07	0.03
Ariannu Benthycia di-gefnogaeth	0.10	0.00	-0.10
Buddsoddi mewn Newid	0.30	0.00	-0.30
Adolygu Tâl a Graddfeydd	0.20	0.00	-0.20
<b>Sefyllfa Ddigynnydd</b>	<b>121.70</b>	<b>122.47</b>	<b>0.77</b>
Lwfans Twf	1.00	1.00	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>122.70</b>	<b>123.47</b>	<b>0.77</b>
Arbedion	-3.70	4.31	-0.61
<b>Cyfanswm</b>	<b>119.00</b>	<b>119.16</b>	<b>0.16</b>
<b>Ariannwyd gan:</b>			
CTC	92.30	92.33	0.03
Treth Gyngor	26.70	26.83	0.13
	<b>119.00</b>	<b>119.16</b>	<b>0.16</b>

Fel y gellir gweld o'r tabl uchod, prif achos y cynnydd rhwng y ffigur rhagamcan lefel uchel yn strategaeth y gyllideb a'r gyllideb ddi-gynnydd ddrafft (gyda lwfans twf o £1m) yw bod y rhagdybiaethau ynglŷn â chwyddiant yn sylweddol uwch. Gwneir iawn am hyn gyda'r gostyngiad cyfatebol a welir mewn nifer o feysydd eraill. O ystyried hyn a'r sylwadau yn para 1.1.2, ar hyn o bryd mae chwyddiant yn ymddangos yn y Cyfadrannau yn y gyllideb ddi-gynnydd. Felly, mae elfen yn cael ei chymryd allan o gyllidebau'r gwasanaethau a'u dal fel arian wrth gefn ar gyfer materion annisgwyl y gellir ei ddefnyddio os a phan gyfyd yr angen.

### 3. STRATEGAETH Y GYLLIDEB

#### 3.1 Cyfalaf

3.1.1 Mae'r gyllideb Cyfalaf yn cael ei ostwng i raddau mwy na'r gyllideb referniw. Y setliad terfynol ar gyfer 2012-13 a'r ddwy flwyddedd nesaf yw :-

Blwyddyn Ariannol	Cyllid Arwyddol o'r Setliad Terfynol £'m
2012-13	4.050
2013-14	3.605
2014-15	3.605

Yn 2011-12 gosodwyd y gyllideb cyfalaf drwy dreiglo ymlaen y gyllideb o'r flwyddyn flaenorol a thrwy :-

- Adolygu a diweddaru'r cyllidebau ar gyfer cynnal a chadw cyfalaf neu amnewid asedau sefydlog;
- Cynnwys unrhyw newidiadau gwybyddus;
- Cynnwys unrhyw grantiau newydd gwybyddus;
- Defnyddio'r cyllido Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Cymru yn ogystal ag asesiad o'r derbyniadau cyfalaf oedd yn debygol i fod ar gael;
- Cynnwys arian wrth gefn o £1m;
- Cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai yn unol â'r cynllun 30 mlynedd wedi ei ddiwygio a'i diweddaru;

Fel roedd pethau, nid oedd hi'n bosib i ddatblygu'r gyllideb a dyrannu'r arian wrth gefn.

3.1.2 Cynigir defnyddio'r un dull ar gyfer 2012-13, gyda'r arian wrth gefn sydd heb eu defnyddio'n cael eu rholio ymlaen i wneud yn iawn, ar sail unwaith-ac-am byth, am y toriadau yng nghyllideb y llywodraeth. Mae'r gwasanaethau yn datblygu cynlluniau ar gyfer :-

- Pobl hyn;
- Adfywio tai;
- Tai fforddiadwy;
- Rhesymoli ysgolion.

Yn ogystal â diweddariad sylweddol o'r Cynllun Rheoli Asedau.

3.1.3 Mae dau brosiect ysgolion sylweddol wedi cael cyllideb, a 3 o brosiectau a gyllidir gan grantiau Ewropeaidd wedi cychwyn neu ar fin gwneud. Mae cynlluniau i sicrhau y bydd cyllideb ychwanegol ar gael ar gyfer :-

- Lonydd;
- Adfywio – yn cynnwys buddiannau posibl o'r parth menter, ynys ynni a'r Rhaglen Môn Menai;
- Gwario i Arbed a chyllidebau arall mewnol ad-daladwy.

Fodd bynnag, yn gyffredinol ni fydd unrhyw gychwyniadau newydd.

#### 3.2 Lwfans ar gyfer Pwysau Demograffig

3.2.1 Er gwaethaf hinsawdd ariannol sy'n golygu bod cyllidebau i gyd yn cael eu gostwng mewn termau real, rhaid i unrhyw strategaeth ganiatáu ar gyfer pwysau twf a blaenoriaethau.



**3.2.2** Y mater cyntaf y mae'n rhaid paratoi ar ei gyfer yw'r twf na ellir ei osgoi yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth oherwydd newidiadau demograffig. Eisoed, fe ganiateir yn awtomatig ar gyfer yr effaith a gaiff newidiadau mewn niferoedd disgyblion yn y gyllideb ddigynnydd a'r blaengynlluniau ac fe wneir newidiadau bychan mewn perthynas â hyd lonydd ag ati. Hefyd, mae lwfans wedi ei wneud ar gyfer twf demograffig Gwasanaethau Cymdeithasol oddi fewn y gyllideb ddi-gynnydd oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth pobl hyn a nifer cynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn gwasanaethau oedolion arall. Fe wnaed lwfans o tua £300k mewn cyllideb flynyddol yn 2010-11 ac fe ganiatawyd £300k pellach yn 2011-12.

**3.2.3** Mae'r strategaeth ariannol yn caniatáu ar gyfer twf demograffig y gellir ei ragweld, fodd bynnag, oherwydd ei fod yn anodd i fod yn gywir gyda rhagamcanion, cynhelir trafodaethau gyda'r maes gwasanaeth.

### 3.3 Rhagamcanion Diwygiedig

**3.3.1** Gan ystyried yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol, mae'r tabl canlynol yn dangos rhagamcan cyllidebol tair blynedd wedi'i ddiweddarau :-

	2011-12 £m	2012-13 £m	2013-14 £m	2014-15 £m
Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol	119.4	118.9	119.2	121.5
Cynnydd mewn Costau	2.5	3.4	3.1	3.4
Newidiadau Demograffig	0.1	0.3	0.2	0.2
Ariannu Cyfalaf a Llog	-0.3	-0.1	-0.4	0.0
Ariannu benthyca digefnogaeth	0.1	0.0	0.2	0.4
Adolygu Tâl a Graddfeydd	0.0	0.0	0.4	0.4
Buddsoddi mewn newid	0.5	0.0	0.2	0
Lwfans twf	0.3	1.0	0.7	0.5
Arbedion	-3.7	-4.3	-2.1	-3.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>118.9</b>	<b>119.2</b>	<b>121.5</b>	<b>123.2</b>
Ariannwyd gan LICC	93.4	92.3	93.3	93.6
Treth Cyngor	25.5	26.8	28.2	29.6
Arian wrth gefn				
	<b>118.9</b>	<b>119.2</b>	<b>121.5</b>	<b>123.2</b>

Mae'r ffigwr cyllideb yn deillio o setliad terfynog LIC. Fodd bynnag, gall hyn newid oherwydd newidiadau demograffig a'r hinsawdd economaidd cyfredol.

Yn y tabl hwn, 2011-12 fe geir crynodeb o'r hyn wnaed y flwyddyn honno a 2012-13 wedi'i gymryd o ffigyrau'r gyllideb ddigynnydd ddiweddaraf fel yr amlinellwyd yn adran 2 uchod. Mae'r rhagamcanion ar gyfer 2013-14 a 2014-15 wedi'u cymryd o'r rhai a gyflwynwyd yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth, wedi'u diweddarau ar gyfer y ffigyrau CTC diweddaraf o'r setliad terfynol. Mae rhagamcanion y Dreth Gyngor yn tybio cynnydd blynyddol o 5% mewn elw, er yn ymarferol fe allai hyn gael ei wneud i fyny trwy gynnydd o 1% yn sail y Dreth a chynnydd o 4% yng ngraddfa'r Dreth Gyngor pe bai'r farchnad/sector dai yn codi yn y dyfodol.

**3.3.2** Mae'r angen i wneud arbedion wedi'i drin fel ffigwr cydbwysu yn y dadansoddiad hwn. Y mae'n gyson gyda'r dadansoddiad lefel uchaf yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a'r Strategaeth a gyflwynwyd fis Rhagfyr yn dweud bod angen gwneud arbedion o tua £11 miliwn dros y tair blynedd nesaf (y ffigwr gwirioneddol yma yw £9.6 miliwn ond o ystyried yr hinsawdd economaidd cyfredol a rhagamcanion cyllidebol, efallai bydd yn uwch). Mae rhagamcanu unrhyw gynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol ar ôl cyfnod o rewi cyflogau, yn golygu bod y sefyllfa'n gwaethgu ac nid yn gwella. Fodd bynnag, o safbwynt rhagamcanion y dyfodol rhaid adolygu'r rhain a'u diweddarau ynghyd â'r gwaith o ddiweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn disgwyliadau i'r dyfodol.

### 3.4 Cynigion Arbedion

**3.4.1** Yr angen i wneud arbedion refeniw ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen yw'r prif fater yn strategaeth y gyllideb. Mae'r cynigion a roddwyd gerbron gan y cyfadrannau yn gymysgedd o arbedion, effeithlonrwydd a thorri gwasanaeth.

**3.4.2** Lle bo hynny'n bosibl, mae'r cynigion ar gyfer arbedion wedi'u categorio (fel ffit gorau) fel a ganlyn:-

	£'m
Mentrau Awdurdod Eang	0
Darparwyr Eraill	0.083
Lleihad mewn gwasanaethau dewisol	1.211
Lleihau gwasanaeth	1.925
Arbedion	1.272
Effeithlonrwydd	0.226
	4.717

**3.4.3** Gan dybio y bydd y swm a roddwyd o'r neilltu ar gyfer twf yn parhau yn £1.0 miliwn, bydd raid cael arbedion net o £4.31 miliwn yn 2012-13, fel yr amlygwyd yn y tabl ym Mhara 2.3.4. Mae cyfanswm yr holl gynigion arbed yn dod i £4.7m (Atodiad D) ond fe ragamcanwyd costau o £174k. Mae hyn yn golygu bod y cynigion ar gyfer cyfanswm yr arbedion net yn £4.54m. Mae'r gwasanaethau cyfreithiol hefyd wedi cyflwyno dau opsiwn i arbed a dim ond un ellir ei gymryd. Mae hyn yn lleihau cyfanswm yr arbedion net yn y cynigion i £4.51m. Cymysgedd yw'r arbedion hyn o gwtogi staff, cynhyrchu incwm a lleihau gwasanaeth (swm sylweddol o'r rhain).

**3.4.4** Nid yw'r cynigion ar gyfer arbed yn cynnwys lwfans ar gyfer unrhyw ddiswyddiadau a ragwelir, gweler para 3.4.7.

**3.4.5** Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion hyn i arbed o fewn y categorïau uchod yn cael effaith ar ddarparu gwasanaeth, a bydd yn rhaid ystyried hynny pan yn penderfynu pa opsiynau i'w pecynnu.

**3.4.6** Bydd y cynigion yn dibynnu hefyd ar amcanion y Comisiynwyr. Mae yna bosibilrwydd na fydd pob un o'r cynigion sydd wedi cael eu cyflwyno'n cael eu gweithredu, ac mae rhai angen eu gwirio ymhellach, mae rhai nad ydynt yn newydd nac yn uchelgeisiol a bydd llawer yn cymryd amser i ddarparu arbedion.

**3.4.7** Mae rhai o'r cynigion hyn i arbed yn golygu lleihau niferoedd staff gyda rhai ohonynt yn bosibl trwy "symudiadau staff naturiol". Mae'r cynigion arbed ar hyn o bryd yn tybio gwerth blwyddyn lawn o arbedion mewn perthynas â gostyngiadau mewn staffio. Mae yna risg amseru yn gysylltiedig â'r rhain, - os na chaiff nifer y staff ei leihau ar 1 Ebrill, yna ni fydd yr arbediad llawn yn cael ei gyflawni. Y mae hefyd yn debygol y bydd yna gostau diswyddo staff ynglŷn â gwneud unrhyw arbedion. I'r pwrpas hwn, bydd rhaid mynd i mewn i'r arian wrth gefn. Fe gyflwynwyd adroddiad ar yr arian wrth gefn i'r Comisiynwyr ym mis Rhagfyr 2011 pan penderfynwyd i ddefnyddio hyd at £1m o'r Balansau Cyffredinol a £300k o'r arian wrth gefn.

**3.4.8** Argymhellir:

- (a) y dylai'r Comisiynwyr edrych i wneud digon o arbedion yn 2012-13 i allu balansio'r gyllideb refeniw heb ddefnyddio arian wrth gefn;
- (b) y dylai'r Comisiynwyr gynllunio i gwrdd â chostau diswyddo na ellir eu hosgoi neu gostau unwaith-ac-am-byth arall o gyflawni arbedion o'r arian wrth gefn.

## 4 PECYN CYLLIDEB REFENIW 2012-13

### 4.1 Bidiau Twf a Phwysau

- 4.1.1** Roedd yna lwfans o £1.0 miliwn yn y rhagamcan lefel uchaf gyflwynwyd yn Natganiad y Comisiynwyr ar y Gyllideb a Strategaeth ar gyfer twf.
- 4.1.2** Dylid nodi hefyd bod y cynigion twf canlynol wedi cael eu cyflwyno, fe ragwelir bod iddynt newid contractyddol neu swyddogaeth statudol/reoleiddiol:

<b>Trosglwyddo Data Electronig</b>	£10k
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllid-unwaith-ac-am-byth i gwrdd â'r newidiadau arfaethedig yn y ffiniau/ardaloedd etholaethol.</li> </ul>	
<b>Contract Prydau Ysgol</b>	£20k
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cost unwaith-ac-am-byth oherwydd bod y contract prydau ysgol yn dod i ben yn 2013 ond bydd yr ymarfer ail-dendro yn dechrau yn 2012.</li> </ul>	
<b>Partneriaeth Baner Las/Moroedd Glas – Dyfroedd Nofio</b>	£30k
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau mewn rheoliadau yn golygu bod angen arddangos arwyddion newydd o 1 Ebrill 2012.</li> </ul>	
<b>Glanhau Strydoedd</b>	£190k
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau mewn deddfwriaeth yn dod i rym sy'n golygu bod yn rhaid i'r driniaeth fod trwy broses ddiwydiannol yn hytrach na'u hanfon i'r fferm i'w compostio.</li> </ul>	
<b>Remandio Gorchmynion Llys</b>	£29k
<ul style="list-style-type: none"> <li>• O 1 Ebrill, bydd costau llawn Remandio Gorchmynion Llys yn disgyn ar yr Awdurdod. Cyn hyn, nid oedd rhaid i'r Awdurdod ond cyllido trydedd ran y costau.</li> </ul>	
<b>Cynghorydd Personol Gwasanaethau Plant</b>	£27.5k
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae hwn yn angen statudol y bydd yn rhaid i'r Awdurdod ymgymryd ag ef ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.</li> </ul>	

Cyfanswm y cynigion uchod yw £306k. Dylid nodi bod y rhestr dwf yn atodiadau E - G yn cynnwys llawer iawn mwy o gynigion na hyn. Fe ellir derbyn y rhain, ond bydd angen naill ai cynigion pellach i arbed, nodi cynigion pellach i arbed neu beidio â chyflawni rhai o'r uchod.

**4.1.3** Mae Atodiad C yn dangos cyfanswm o £2.69m ar gyfer y cyfan o'r cynigion twf/pwysau a gyflwynwyd. Pan fydd y swyddogaethau contractyddol/Statudol/Rheolaethol uchod wedi'u symud ymaith, mae cyfanswm y bidiau sy'n weddill yn £2.384m.

## 5 CYLLIDEB YSGOLION

**5.1** Rhoddwyd cyllidebau dangosol i ysgolion yn ystod Rhagfyr 2011. Dilynwyd hyn gan gyfarfod gyda'r Ysgolion Uwchradd ar 9 Ionawr 2012. Yn y cyfarfod rhoddwyd ffigurau dangosol i'r ysgolion o'r lefel o'r arbedion efallai y gofynnir iddynt ei wneud ar canranau gwahanol. Mae'r rhain fel a ganlyn :-

Canran	Cyfanswm (£m)
1%	0.3
2%	0.6
3%	0.9
4%	1.2
5%	1.6

**5.2** Mae'r holl ragdybiaethau a wnaed i'r gyllideb ysgolion wedi bod yr un fath a'r cyfadrannau eraill oddi fewn i'r Awdurdod. Yr eithriad i hyn yw nad yw'r Awdurdod, ar hyn o bryd, wedi gofyn am lefel benodol o arbedion. Bydd y cais yma yn ddibynnol ar sefyllfa cyffredinol yr Awdurdod a'i flaenoriaethau. Dylid hefyd nodi bod yr holl argymhellion uchod ac oddi fewn i baragraff 7.3 yn berthnasol i gyllidebau ysgolion.

**5.3** Bydd ymgynghoriad pellach â'r ysgolion, yn cynnwys y fforwm ysgolion, yn ystod y cyfnod ymgynghori yma.

## 6 Y SEFYLLFA GYFFREDINOL

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa gyffredinol ddrafft ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn

	£'m
Bwlch	3.31
Swyddogaethau Contractyddol/Statudol a Rheolaethol	0.306
